

Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru Cylchlythyr

Awst 2014

Cynnydd pellach yn y niferoedd sy'n sefyll Mathemateg Bellach lefel A yng Nghymru

Mae canlyniadau lefel A Mathemateg Bellach eleni unwaith eto'n achos dathlu yng Nghymru. Mae'r canlyniadau Mathemateg a Mathemateg Bellach wedi adeiladu ar y cynnydd a welwyd yn y nifer oedd yn sefyll y pynciau hynny'r llynedd, gan godi ymhellach:



William Thomas
Ysgol Bro Gwaun
Prifysgol
Caerfaddon

"Diolch i'r tiwtoriaid ac FMSP cefais A* mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach a chael lle yn fy Mhrifysgol dewis cyntaf"




Jessica Akins
Ysgol Uwchradd
Cei Connah
Prifysgol Manceinion

"Roedd y cwrs yn ddetnyddiol iawn ac rwy'n credu y byddai o fudd i lawer o fyfyrwyr eraill i'w gwblhau. Rwyf hefyd yn credu drwy gwblhau'r cwrs fe helpodd i mi ennill gradd uwch yn fy mathemateg Safon Uwch sef A**"

- Mae niferoedd lefel A Mathemateg Bellach wedi codi o 416 i 435, cynnydd o 4.6%.
- Mae niferoedd AS Mathemateg Bellach wedi codi o 369 i 411, cynnydd o 11.4%.
- Mae niferoedd lefel A Mathemateg wedi codi o 3713 i 3727, cynnydd o 0.4%.
- Mae niferoedd AS Mathemateg wedi codi o 4796 i 5087, cynnydd o 6.1%.

Cyrhaeddodd cyfran y myfyrwyr Mathemateg a safodd lefel A Mathemateg Bellach 11.7%, sef y canlyniad uchaf erioed mewn Mathemateg Bellach yng Nghymru. Ers i'r Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach gael ei lansio yng Nghymru yn 2010, mae'r ganran wedi codi'n gyson bob blwyddyn, fel y dengys y graff isod.

Graff 1. Canrannau'r myfyrwyr lefel A Mathemateg sydd wedi sefyll lefel A Mathemateg Bellach yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ers 2003 (<http://www.jcq.org.uk/examination-results/a-levels>)





Cynhadledd Blwyddyn 11 Prifysgol Bangor Gogledd Cymru



Cynhaliodd Raglen Gymorth Mathemateg Bellach gynhadledd ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 11 ym Mhrifysgol Bangor ar y 18fed o Fedi 2014. Daeth 95 o fyfyrwyr o 10 ysgol yng Ngogledd Cymru ac i 9 o'r ysgolion hwn oedd y tro cyntaf iddynt fynychu cynhadledd Blwyddyn 11. Cynhaliwyd y gynhadledd dros ddiwrnod llawn gyda phob myfyrwiw yn cymryd rhan mewn dau weithdy a sgwrs. Roedd y niferoedd yn gyfartal gyda 47 merch a 48 bachgen. Darparwyd bedwar gweithdy i gyd gan gynnwys un gan Katie Speckles, siaradwr benywaidd adnabyddus ac un trwy gyfrwng y Gymraeg gan Dr Gareth Ffowc Roberts dan y teitl $14x + 15 = 71$, Tuduriaid yn Trydar? Derbyniodd Raglen Gymorth Mathemateg Bellach adborth cadarnhaol iawn am y digwyddiad a cafodd sgwrs Colin Wright ar 'Fathemateg a Jygllo' adborth gwych.

Cynhadledd Blwyddyn 10 – De Cymru



Cynhaliodd Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru dair cynhadledd lwyddiannus ym mis Mehefin a Gorffennaf 2014 ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 10 o bob rhan o Dde Cymru. Cafodd y cynadleddau eu cynnal yng Ngholeg Sir Benfro, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol De Cymru. Rhoddodd y cynadleddau ddiwrnod addysgiadol a phleserus i 340 o fyfyrwyr o 20 o ysgolion o Dde Cymru gan gynnwys 4 o Sir Benfro a 4 o Rhondda Cynon Taf.

Nod y cynadleddau oedd dangos i fyfyrwyr y dyfnder ac ehangder sydd i fathemateg ac i'w hannog i ystyried astudio Mathemateg tu hwnt i TGAU. Anelodd pob un o'r bedair cynhadledd i roi'r neges bod mathemateg yn bwnc gwerth chweil ac yn agor drysau i amrywiaeth o gyfleoedd gyrfa cyffrous.



Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

Sean McCarthy
Athro
Ysgol Gyfun Aberdaugleddau
"Roedd gennym hyfforddwr gwych oedd yn teilwra ei gyfarwyddyd i gyd-fynd ag ystod gallu'r cynrychiolwyr, o athro oedd newydd raddio i rywun oedd yn heb edrych ar y gwaith ers dros 30 mlynedd"

O fis Medi 2014 bydd Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru yn cynnig Rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) beilot mewn Mathemateg Bellach i athrawon o ysgolion a cholegau a ariannir gan y wladwriaeth yn Ne Cymru. Meddai Sofya Lyakhova, Cydlynnydd y Prosiect: "*Mae codi lefel sgiliau athrawon yn hanfodol i sicrhau bod y ddarpariaeth Mathemateg Bellach yn gynaliadwy yng Nghymru*". Mae canlyniadau'r arolwg DPP yn awgrymu bod diddordeb cryf mewn DPP mewn Mathemateg Bellach yng <http://www.furthermaths.org.uk/wales-teacher-support#cymraeg>. Atebodd o leiaf 22% o'r canolfannau chweched dosbarth a ariennir gan y wladwriaeth, a byddai gan 84% o'r holl ymatebwyr ddiddordeb mewn derbyn DPP mewn Mathemateg Bellach, Bur, Mecaneg neu Ystadegaeth yn y 12 mis nesaf. Amlygwyd yr angen am raglen DPP hefyd yn yr adroddiad gwerthuso.

Dysgu Mathemateg Bellach Bur 1 yn Hyderus

Dyddiad: Abertawe a Chaerdydd - Hydref 2014 - Mawrth 2015, Cost y Cwrs: Am ddim

Mae FMSP Cymru yn cynnal cyfres o weithdai wyneb yn wyneb a darlithoedd ar-lein rhad ac am ddim. Mae'r cwrs hwn yn ddelfrydol ar gyfer athrawon nad ydynt wedi dysgu pynciau FP1 o'r blaen neu ar gyfer athrawon sy'n dymuno adnewyddu eu gwybodaeth o'r pwnc. Byddai gwybodaeth am dechnegau algebraidd UG Craidd (C1 ac C2) yn fanteisiol. Darperir adnoddau ar-lein trwy Integralmaths.org i ychwanegu at y cwrs.

Mae manylion llawn ar gael yn http://www.furthermaths.org.uk/Wales_CPD. Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 1 Hydref 2014

Cofrestru

Gwahoddir yr holl ysgolion uwchradd a cholegau a ariannir gan y wladwriaeth yng Nghymru i gofrestru gyda'r Rhaglen <http://www.furthermaths.org.uk/Eregister.php> a mynegi eu diddordeb mewn cymorth tiwtora trwy gysylltu â Chydlynnydd y Rhaglen, Sofya Lyakhova, ar **01792 602793**.

The FMSP Wales
Is managed by
Rheolir FMSP
Cymru gan



www.wimcs.ac.uk

in partnership with
mewn
partneriaeth â



funded by
ac fe'i
hariannir gan



Llywodraeth Cymru
Welsh Government